Department of Energy and Climate Change

TUAG AT DDATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL AR BŴER NIWCLEAR

Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriadau ynghylch y Broses Asesiad Lleoli Strategol a'r meini prawf lleoli ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU; ac i'r astudiaeth o effeithiau posib cymhwyso'r meini prawf yn amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd

ATODIAD D: FFURFLEN ENWEBU

SWYDDFA DATBLYGU PŴER NIWCLEAR

IONAWR 2009

Atodiad D: Ffurflen Enwebu

Pwrpas y ffurflen hon

Defnyddir y ffurflen enwebu i gyflwyno safle ar gyfer cael ei ystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel un sy'n strategol addas ar gyfer lleoli gorsaf bŵer niwclear newydd erbyn diwedd 2025. Cynhelir gwerthusiad Asesiad Lleoli Strategol (SSA) ar lefel strategol a lefel uchel a bydd rhestr o safleoedd a gymeradwyir yn cael ei chynnwys yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) ar Bŵer Niwclear.

Gyda'r ffurflen enwebu hon, mae yna nodiadau canllaw yn Atodiad C. Mae'r canllawiau yn egluro sut i lenwi'r ffurflen yn fwy manwl ac yn nodi'n llawnach pa wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â phob maen prawf.

Ceir copïau o'r ffurflen enwebu hon ar ffurf Microsoft Word yn http://www.berr.gov.uk/whatwedo/energy/sources/nuclear/consultations/closed-response/page47749.html

Pa rannau o'r ffurflen y mae angen eu llenwi

Dylai enwebwyr lenwi cymaint o'r ffurflen enwebu â phosib. Mae'r canllawiau perthynol yn nodi'r wybodaeth rydym yn chwilio amdani. Fodd bynnag, gyda rhywfaint o'r wybodaeth – er enghraifft, camau lliniaru posib – mater i'r enwebydd yw penderfynu beth sy'n briodol a pherthnasol.

Os na fydd enwebydd yn darparu digon o wybodaeth, gall hyn arwain at gais am ragor o wybodaeth. Fodd bynnag, dylai enwebwyr fod yn ymwybodol y gall methu darparu digon o dystiolaeth arwain at osod nifer o amodau ynghlwm wrth y penderfyniad ynghylch addasrwydd strategol y safle ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd, neu olygu y bydd yr enwebiad yn cael ei wrthod yn gyfan gwbl

Dogfennau eraill y dylid eu cyflwyno gyda'r ffurflen

Mewn llawer o achosion, mae'r ffurflen enwebu yn egluro pa ddogfennau ategol fydd eu hangen. Mewn achosion eraill, fe fydd yn dibynnu ar fanylion yr enwebiad (er enghraifft, y camau lliniaru penodol fydd eu hangen). Dylid cynnwys manylion y dogfennau ategol sy'n cael eu darparu yn y tabl ar ddiwedd pob cwestiwn ac yn y rhestr gyffredinol o ddogfennau ategol a ddarperir yn Adran F y ffurflen enwebu. Dylai enwebwyr hefyd roi cyfeirnod dogfen (e.e. "001") ar gyfer pob dogfen ategol unigol a gynhwysir a dylai'r cyfeirnodau hyn ymddangos yn y tablau perthnasol a chael eu nodi'n glir ar flaen y dogfennau ategol eu hunain.

Sawl copi o'r ffurflen gyflawn a'r dogfennau ategol sydd eu hangen?

A wnewch chi gyflwyno'r gwreiddiol a 3 chopi o'r ffurflen enwebu a'r holl ddogfennau ategol eraill. Anfonwch y wybodaeth angenhreidiol atom mewn amlen neu becyn dan sêl gyda "Proses Enwebu SSA Nomination Process" wedi'i nodi'n eglur ar y blaen.

A wnewch chi hefyd ddarparu copi electronig o'r ffurflen a'r holl ddogfennau ategol, ar ddisg lle bo modd. Os yn bosib, hoffem dderbyn y dogfennau hyn ar ffurf ffeiliau PDF glân. Fel arall, a wnewch chi ddarparu ffeiliau Microsoft Word (2003 neu gynt).

A gawn ni gyflwyno enwebiadau trwy e-bost?

Oherwydd nifer y dogfennau ategol sydd eu hangen, byddai'n llawer gwell gennym dderbyn enwebiadau ar bapur (gyda ffeiliau electronig ar ddisg gyda nhw).

Os bydd enwebwyr o'r farn fod unrhyw wybodaeth a ddarparant yn fasnachol gyfrinachol ac na ddylid ei chyhoeddi, yna dylent wneud hynny'n eglur ar y ddogfen berthnasol neu ran berthnasol y ffurflen enwebu. Dylent hefyd ddarparu dwy fersiwn o'r dogfennau a ddarperir yn electronig – un ar gyfer ei chyhoeddi (gyda'r wybodaeth wedi'i hepgor neu wedi'i chuddio mewn du) ac un nad yw ar gyfer ei chyhoeddi.

Beth yw'r dyddiad cau?

Dylai'r ffurflenni enwebu cyflawn a'r holl ddogfennau ategol ein cyrraedd erbyn 5pm ar ddydd Mawrth, 31 Mawrth 2009.

I ble dylid anfon y ffurflenni enwebu cyflawn?

Y cyfeiriad ar gyfer enwebiadau yw:

SSA Enwebiadau
Bay 128
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET
ssanominations@decc.gsi.gov.uk

A Lleoliad a gwybodaeth gymhwyso arall

A1 Disgrifiwch leoliad y safle

Teitl / enw'r safle

……

Disgrifiad (mewn geiriau)

……..
……..
……..

A2 Nodwch derfyn y safle, trwy ei ddarlunio ar fap Arolwg Ordnans â graddfa 1:10,000.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi A2	**Eich cyfeirnod** A wnewch chi ychwanegu cyfeirnod ar gyfer pob dogfen a ddarparwch
Map Arolwg Ordnans anodedig â graddfa 1:10,000 i ddangos terfyn yr ardal a enwebir	001

A3 Gyda'ch enwebiad, a oes yna lythyr cefnogi gan Weithredwr Pŵer Niwclear Credadwy (CNPO)?

Oes *Os 'oes ', yna a wnewch chi gynnwys y llythyr gan y CNPO gyda'ch ffurflen gyflawn*

Nac oes *Os 'nac oes ', yna a wnewch chi esbonio pam y mae'n gredadwy y gellir lleoli gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle a bennir yn A1 ac A2 ar gyfer lleoli erbyn diwedd 2025.*

Yn ychwanegol, ac o gofio pwysigrwydd cyrraedd targedau allyriadau carbon deuocsid, byddai'r Llywodraeth yn croesawu gwybodaeth am safleoedd ble gellid lleoli yn gynnar. Felly dylai'r llythyr cefnogi gan y CNPO neu ddatganiad yr enwebydd ei hun ystyried hefyd a ellid lleoli gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle cyn 2025, yr amserlenni posib ar gyfer lleoli'n gynnar fel hyn, amcangyfrif o broffil y gallu cynhyrchu cynnar y gellid ei gyflawni ar y safle a enwebir a'r rhesymau dros y datganiad hwn.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi A3	Eich cyfeirnod
Llythyr gan CNPO /Datganiad gan yr enwebydd yn nodi pam mae'r safle yn un credadwy ar gyfer lleoli erbyn 2025 (*dileer fel sy'n briodol*)	

A4 Ydych chi wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o'r enwebiad gyda chymunedau lleol sy'n byw yng nghyffiniau'r safle, gan gynnwys perchennog/perchnogion y safleoedd a enwebir?

Do *Os 'do ', yna a wnewch chi ddarparu, fel dogfen ar wahân, datganiad o'r hyn a wnaethoch i fodloni'r gofyniad hwn. Dylech ddangos eich bod wedi bodloni'r gofynion sylfaenol (sicrhau bod yr awdurdod lleol perthnasol, yr RDA, ac unrhyw dirfeddianwyr yn ymwybodol o'r enwebiad a chymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'r enwebiad i'r gymuned ehangach trwy gyfrwng hysbysebion mewn papurau newyddion lleol) ynghyd ag unrhyw gamau ychwanegol a gymerwyd gennych. A wnewch chi gadarnhau eich bod wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael am sut y gall pobl ddweud eu barn wrth y Llywodraeth, fel yr amlinellir yn ein canllawiau.*

Naddo *Os 'naddo ', yna mae'n bosib na all y Llywodraeth ystyried eich enwebiad ymhellach. Fodd bynnag, dylech egluro pam na fu'n bosib bodloni'r gofyniad a beth yw eich cynllun ar gyfer unioni'r diffyg a'r amserlenni ar gyfer gwneud hynny.*

Dogfennau a ddarperir i gefnogi A4	Eich cyfeirnod

A5 Er mwyn helpu'r Llywodraeth i sicrhau bod digon o ystyriaeth wedi'i rhoi ar y lefel strategol i safleoedd gwahanol ar gyfer adeiladu niwclear o'r newydd, a wnewch chi nodi (mewn dogfen ar wahân os oes angen) y broses a ddilynwyd gennych wrth ddewis y safle hwn ar gyfer ei enwebu, yn hytrach nag unrhyw safleoedd gwahanol, yn ogystal â'r rhesymau a achosodd i chi wneud y dewis hwn:

……
……
……..

Dogfennau a ddarperir i gefnogi A5	**Eich cyfeirnod**

B Gwybodaeth am y person, cwmni neu endid corfforaethol arall sy'n cyflwyno'r enwebiad

B1 A wnewch chi roi enw a chyfeiriad llawn, a manylion cyswllt eraill yr unigolyn, cwmni neu endid corfforaethol arall sy'n gwneud yr enwebiad hwn

Enw'r enwebydd

……..

Enw masnachu/busnes (os yw'n wahanol i'r uchod ac os yw'n briodol)

…….

Cyfeiriad

……
……
……
……
…….Côd post…….

Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig (os yw'n wahanol i'r uchod ac os yw'n briodol)

……

……

…….Côd post…….

Rhif cofrestru'r cwmni (os yw'n gymwys)

……

B2 Cwmnïau Daliannol

A yw'r enwebydd yn is-gwmni o gwmni daliannol yn ystyr Adran 736 Deddf Cwmnïau 1985?

Nac ydy *Os 'nac ydy', ewch ymlaen i gwestiwn B3*

Ydy *Os 'ydy' yna a wnewch chi lenwi'r wybodaeth isod*

Enw'r cwmni daliannol eithaf

……..

Cyfeiriad

……

……

……Côd post……..

Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig (os yw'n wahanol)

……

……

…….Côd post……

Rhif cofrestru'r cwmni

……..

B3 Gyda phwy y gallwn ni gysylltu ynghylch eich cais?

Rhowch fanylion rhywun y gallwn gysylltu â nhw yn uniongyrchol gydag unrhyw gwestiynau am eich cais neu wybodaeth am ei gynnydd. Dylai'r sawl a enwir gennych fod â'r awdurdod i weithredu ar ran yr enwebydd a dylid diweddaru'r wybodaeth hon petai naill ai'r cyswllt neu'r cwmni sy'n cyflwyno'r enwebiad yn newid.

Enw

……..

Swydd

……..

Cyfeiriad

……

……

……Côd post……..

Rhif ffôn (swyddfa)……(symudol)……

Rhif ffacs……..

Cyfeiriad e-bost……..

C Gwybodaeth angenrheidiol am feini prawf gwaharddol SSA

C1 Risg ddemograffig (maen prawf gwaharddol)

Gan mor gymhleth yw'r cyfrifiad hwn mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nad yw'n rhesymol disgwyl i enwebwyr gynnal y cyfrifiad hwn eu hunain; yn hytrach bydd y cyfrifiadau yn cael eu cynnal gan yr NII ar gyfer ardal y safle a enwebir.

Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi asesiad y maen prawf gwaharddol hwn.

C2 Agosrwydd at Weithgareddau Milwrol (maen prawf gwaharddol)

O gofio'r ystyriaethau diogelwch sy'n ymwneud â'r wybodaeth ar gyfer y maen prawf hwn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nad yw'n rhesymol mynnu bod enwebwyr yn ei darparu eu hunain; yn hytrach, cynhelir yr asesiad gan yr MoD ar gyfer ardal y safle a enwebir.

Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi asesiad y maen prawf gwaharddol hwn.

Sylwch fod agosrwydd at weithgareddau milwrol eraill yn cael sylw hefyd yn D5 fel maen prawf dewisol.

D Gwybodaeth angenrheidiol am feini prawf dewisol SSA

D1 Llifogydd (maen prawf dewisol)

A yw'r safle (fel y'i pennir yn A1 ac A2) yn dod o fewn unrhyw ardaloedd lle mae risg llifogydd yn uchel – er enghraifft, o fewn parth 3 yng nghategorïau risg Asiantaeth yr Amgylchedd?

Nac ydy *Os 'nac ydy', ewch ymlaen i gwestiwn D2.*

Ydy *Os 'ydy' esboniwch pa rannau o'r safle a enwebir y bydd hyn yn effeithio arnynt a sail y farn hon.*

Disgrifiad o unrhyw rannau o'r safle y mae risg llifogydd yn effeithio arnynt fel y disgrifir uchod (os yw'n berthnasol). A wnewch chi gynnwys map, os yw'n briodol.

Os ydych wedi ateb 'ydy' yn D1 uchod, dylech ddisgrifio mewn dogfen ar wahân, i'w chyflwyno gyda'r ffurflen enwebu hon, pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, y gellid diogelu gorsaf bŵer niwclear newydd o fewn y safle a enwebir rhag risg llifogydd gydol ei hoes weithredol, gan gynnwys effeithiau posib newid hinsawdd, ymchwydd storm a tswnami. A wnewch chi amlinellu unrhyw wrthfesurau yr ydych yn tybio y byddai angen eu cymryd.

Wrth fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn, dylech sicrhau eich bod wedi rhoi sylw i:

- y mesurau diogelu fydd, yn eich barn chi, yn briodol er mwyn diogelu'r safle rhag llifogydd;
- a fyddai'r mesurau diogelu yn effeithio ar ardaloedd dynodedig eraill;
- y tybiaethau a wnaethpwyd am ddiogelu rhag llifogydd a rheoli dŵr oddi ar y safle ac, yn enwedig, y ddibyniaeth ar fesurau diogelu rhag llifogydd sydd dan reolaeth partïon eraill, megis tirfeddianwyr cyfagos neu gyrff llywodraethol;
- y potensial y gallai llifogydd rwystro mynediad i'r safle o ran gweithredu'n arferol a gwasanaethau argyfwng;
- a yw datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle (gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru tebygol) yn debygol o gynyddu'r risg llifogydd yn rhywle arall;
- pam mae hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod y safle a enwebir yn debygol o basio'r prawf dilyniannol fel y'i nodir yn y canllawiau ar gyfer enwebwyr.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D1	**Eich cyfeirnod**

D2 Erydiad arfordirol neu sefyllfaoedd eraill a allai newid y dirwedd (maen prawf dewisol)

A yw'r safle (fel y'i pennir yn A1 ac A2) yn dod o fewn unrhyw ardaloedd lle mae yna risg oherwydd erydiad arfordirol neu sefyllfaoedd eraill a allai newid y dirwedd?

Nac ydy *Os 'nac ydy', esboniwch pam rydyn o'r farn hon ac ewch ymlaen i gwestiwn D3.*

Esboniad pam na fydd y risgiau a ddisgrifir uchod yn effeithio ar y safle (os yw'n gymwys). Disgrifiwch hyn mewn dogfen ar wahân, os oes angen.

……
……

Ydy *Os 'ydy' esboniwch pa rannau o'r safle a enwebir y bydd hyn yn effeithio arnynt a sail y farn hon. Hefyd, fe ddylech chi ddarparu'r wybodaeth ategol bellach y gofynnir amdani isod.*

Disgrifiad o unrhyw rannau o'r safle y mae'r risgiau a ddisgrifir uchod yn effeithio arnynt (os yw'n berthnasol). A wnewch chi gynnwys map, os yw'n briodol.

……
……

Os ydych wedi ateb 'ydy' yn D2 uchod, dylech ddisgrifio mewn dogfen ar wahân, i'w chyflwyno gyda'r ffurflen enwebu hon, pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, y gellid diogelu gorsaf bŵer niwclear newydd o fewn y safle a enwebir rhag erydiad arfordirol a sefyllfaoedd eraill a allai newid y dirwedd, gan gynnwys effeithiau posib newid hinsawdd, ymchwydd storm a tswnami, gydol oes yr orsaf. A wnewch chi amlinellu unrhyw wrthfesurau yr ydych yn tybio y byddai angen eu cymryd.

Wrth fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn, dylech sicrhau eich bod wedi rhoi sylw i'r canlynol:

- effeithiau ehangach unrhyw wrthfesurau diogelu'r arfordir ar ardaloedd o amgylch datblygiad gorsaf bŵer niwclear newydd o fewn y safle;

- rhyngweithio gyda'r cynlluniau lleol a rhanbarthol ar gyfer diogelu'r arfordir a rheoli dyfrffyrdd;

- unrhyw ddibyniaeth ar gynlluniau trydydd parti ar gyfer diogelwch sy'n dybiedig.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D2	Eich cyfeirnod

D3 Agosrwydd y safle at gyfleusterau peryglus (maen prawf dewisol)

O gofio'r ystyriaethau diogelwch sy'n ymwneud â'r wybodaeth ar gyfer y maen prawf hwn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu nad yw'n rhesymol mynnu bod enwebwyr yn ei darparu eu hunain. Yn hytrach bydd yr asesiad yn cael ei gynnal gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) ar gyfer ardal y safle a enwebir.

Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi asesiad y maen prawf dewisol hwn.

Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon o blaid gwrthfesurau neu liniaru, mewn dogfen ar wahân, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D3	Eich cyfeirnod

D4 Agosrwydd at symudiadau awyrennau sifil (maen prawf dewisol)

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw'r holl wybodaeth ar gyfer y maen prawf hwn yn wybodaeth gyhoeddus ac felly penderfynodd nad yw'n rhesymol mynnu bod enwebwyr yn ei darparu eu hunain; yn hytrach, cynhelir yr asesiad gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) ar gyfer yr ardal a gynigir gan yr enwebydd.

Felly nid oes angen i enwebwyr ddarparu rhagor o wybodaeth, y tu hwnt i ddisgrifiad y safle a bennir yn A1 ac A2, i gefnogi ystyried y maen prawf dewisol hwn. Fodd bynnag, fe'u hanogir i wirio pa mor agos yw symudiadau awyrennau sifil at y safle a enwebir (fel y'i pennir yn A1 ac A2), lle bo'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus.

Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon o blaid gwrthfesurau neu liniaru, mewn dogfen ar wahân, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D4	Eich cyfeirnod

D5 Agosrwydd at weithgareddau milwrol eraill (nad ydynt yn dod dan C2) (maen prawf dewisol

A yw'r safle (fel y'i pennir yn A1 ac A2) yn dod o fewn unrhyw ardaloedd sy'n agos at, neu a allai effeithio ar, asedau neu weithgareddau'r MoD nad ydynt yn dod dan C2? Gall asedau a gweithgareddau o'r fath gynnwys (ond heb eu cyfyngu i'r rhain yn unig) safleoedd technegol a throsglwyddyddion, ardaloedd peryglus alltraeth, a chyfleusterau niwclear (gan gynnwys porthladdoedd a ddefnyddir gan longau milwrol).

Nac ydy *Os 'nac ydy', esboniwch pam rydych o'r farn hon ac ewch ymlaen i gwestiwn D6*

Esboniad pam na fydd y risgiau a ddisgrifir uchod yn effeithio ar y safle (yn benodol, nodwch unrhyw weithgareddau milwrol yng nghyffiniau'r safle a ystyriwyd ond a gafodd eu disystyru gan fod datblygu'r safle yn annhebygol o effeithio arnynt). Disgrifiwch hyn mewn dogfen ar wahân, os oes angen.

……
…….

Ydy *Os 'ydy' esboniwch pa rannau o'r safle a enwebir y bydd hyn yn effeithio arnynt a sail y farn hon. Hefyd, fe ddylech chi ddarparu'r wybodaeth ategol bellach y gofynnir amdani isod.*

Disgrifiad o unrhyw rannau o'r safle sy'n agos at, neu allai effeithio ar, asedau neu weithgareddau'r MoD nad ydynt yn dod dan adran C2 (os yw'n berthnasol). A wnewch chi gynnwys map, os yw'n briodol.

……
……

Os ydych wedi ateb 'ydy' yn D5 uchod, dylech ddisgrifio mewn dogfen ar wahân, pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, na ddylai agosrwydd o'r fath olygu y dylid diystyru'r safle rhag cael ei ystyried ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae'n bosib y bydd enwebwyr yn dymuno cyflwyno dadleuon o blaid gwrthfesurau neu liniaru, os ydynt yn credu y gallai hyn effeithio ar y safle a enwebir.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D5	Eich cyfeirnod

D6 Safleoedd a ddynodir yn rhai o bwys ecolegol rhyngwladol (maen prawf dewisol)

A yw'r safle a enwebir (fel y'i pennir yn A1 ac A2) mewn ardaloedd, neu a allai ei ddatblygu effeithio ar ardaloedd, a ddynodir yn rhai i'w diogelu'n ecolegol dan rwydweithiau Ramsar a Natura 2000?

Nac ydy *Os 'nac ydy', esboniwch pam rydych o'r farn hon ac ewch ymlaen i gwestiwn D7.*

Esboniad pam na fydd datblygu'r safle a enwebir yn cael effaith ar unrhyw ardal yn ei gyffiniau, a ddynodir yn ardal i'w diogelu'n ecolegol dan rwydweithiau Ramsar a Natura 2000.

……
……

Ydy *Os 'ydy' esboniwch pa safleoedd y bydd hyn yn effeithio arnynt a sail y farn hon. Hefyd, fe ddylech chi ddarparu'r wybodaeth ategol bellach y gofynnir amdani isod.*

Nodwch yr ardal(oedd) a ddynodir yn rhai i'w diogelu'n ecolegol dan rwydweithiau Ramsar a Natura 2000 y gallai hyn effeithio arnynt (os yw'n berthnasol). A wnewch chi gynnwys map, os yw'n briodol.

……
……

Os ydych wedi ateb 'ydy' yn D6 uchod, dylech ddisgrifio mewn dogfen ar wahân, i'w chyflwyno gyda'r ffurflen enwebu hon, beth yw lefel debygol yr effaith a nodi pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, y dylai fod yn bosib osgoi neu liniaru unrhyw effaith o'r fath yn unol â'r safonau a osodir gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Anogir enwebwyr i rannu canlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsant gydag ymgyngoreion statudol a chyrff cadwraeth natur eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr ardaloedd hyn wrth ymateb i'r maen prawf hwn.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D6	Eich cyfeirnod

D7 Safleoedd a ddynodir yn rhai o bwys ecolegol cenedlaethol (maen prawf dewisol)

A yw'r safle a enwebir (fel y'i pennir yn A1 ac A2) mewn ardaloedd, neu a allai ei ddatblygu effeithio ar ardaloedd, a ddynodir yn rhai i'w diogelu'n ecolegol ar lefel genedlaethol?

Nac ydy *Os 'nac ydy', esboniwch pam rydych o'r farn hon ac ewch ymlaen i gwestiwn D8.*

Esboniad pam na fydd datblygu'r safle a enwebir yn cael effaith ar unrhyw ardal yn ei gyffiniau, a ddynodir yn ardal i'w diogelu'n ecolegol ar y lefel genedlaethol.

……
…….

Ydy *Os 'ydy' esboniwch pa safleoedd y bydd hyn yn effeithio arnynt a sail y farn hon. Hefyd, fe ddylech chi ddarparu'r wybodaeth ategol bellach y gofynnir amdani isod.*

Nodwch yr ardal(oedd) a ddynodir yn rhai i'w diogelu'n ecolegol ar lefel genedlaethol y gallai hyn effeithio arnynt (os yw'n berthnasol). A wnewch chi gynnwys map, os yw'n briodol.

……
……

Os ydych wedi ateb 'ydy' yn D7 uchod, dylech ddisgrifio mewn dogfen ar wahân, i'w chyflwyno gyda'r ffurflen enwebu hon, beth yw lefel debygol yr effaith a nodi pam y mae'n rhesymol dod i'r casgliad, ar lefel strategol, y dylai fod yn bosib osgoi neu liniaru unrhyw effaith o'r fath.

Anogir enwebwyr i rannu canlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsant gydag ymgyngoreion statudol a chyrff cadwraeth natur eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr ardaloedd hyn wrth ymateb i'r maen prawf hwn.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D7	Eich cyfeirnod

D8 Ardaloedd sydd o werth o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd (maen prawf dewisol)

A yw'r safle a enwebir (fel y'i pennir yn A1 ac A2) mewn ardaloedd, neu a allai ei ddatblygu effeithio ar ardaloedd, a ddynodir oherwydd eu gwerth uchel o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol neu dirwedd?

Nac ydy *Os 'nac ydy', esboniwch pam rydych o'r farn hon ac ewch ymlaen i gwestiwn D9*

Esboniad pam na fydd datblygu'r safle a enwebir yn cael effaith ar unrhyw ardal yn ei gyffiniau, a ddynodir oherwydd eu gwerth uchel o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol neu dirwedd. Disgrifiwch hyn mewn dogfen ar wahân, os oes angen.

……
……

Ydy *Os 'ydy' esboniwch pa rannau o'r safle y bydd hyn yn effeithio arnynt a sail y farn hon. Hefyd, fe ddylech chi ddarparu'r wybodaeth ategol bellach y gofynnir amdani isod.*

Nodwch yr ardal(oedd) a ddynodir yn rhai sydd o werth uchel o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol neu dirwedd, y gallai hyn effeithio arnynt (os yw'n berthnasol). A wnewch chi gynnwys map, os yw'n briodol.

……
……

Os ydych wedi ateb 'ydy' yn D8 uchod, dylech ddisgrifio mewn dogfen ar wahân, i'w chyflwyno gyda'r ffurflen enwebu hon, beth yw lefel debygol yr effaith a nodi pam y mae'n rhesymol casglu, ar lefel strategol, y dylai fod yn bosib osgoi neu liniaru unrhyw effaith o'r fath

Anogir enwebwyr i rannu canlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsant gydag ymgyngoreion statudol a chyrff cadwraeth natur eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr ardaloedd hyn wrth ymateb i'r maen prawf hwn.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D8	Eich cyfeirnod

D9 Maint y safle ar gyfer cynnwys y gweithrediadau (maen prawf dewisol)

Esboniwch pam y mae'n rhesymol casglu bod digon o dir o fewn terfynau'r safle a enwebir i weithredu o leiaf un orsaf bŵer niwclear newydd yn ddiogel.

Wrth ymdrin â'r cwestiwn hwn, a wnewch chi hefyd roi sylw i:

- ddarparu ar gyfer storio'r holl weddillion tanwydd a'r gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir yn ystod gweithredu, ac o ddatgomisiynu, ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, am rai degawdau hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol; ac

- a oes digon o dir ar gael fel y gellir sicrhau rheolaeth effeithiol dros weithgareddau a mynediad ar ac o amgylch gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle a enwebir.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D9	Eich cyfeirnod

D10 Mynediad at ffynonellau oeri addas (maen prawf dewisol)

A wnewch chi ddarparu gwybodaeth am y technolegau oeri sy'n ddichonadwy ar gyfer datblygiadau gorsaf bŵer niwclear tebygol o fewn y safle a enwebir.

Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, a wnewch chi roi sylw i:

- a yw hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod yna ffynonellau oeri addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd o fewn y safle a enwebir. (Os defnyddir dŵr i oeri, dylai'r enwebydd nodi pam y mae o'r farn bod digon o ddŵr i'r diben hwn neu fesurau eraill y mae angen eu sefydlu);

- pa effeithiau (gan gynnwys effeithiau gweledol) sy'n debygol o godi yn sgil yr angen am oeri a pham mae hi'n rhesymol dod i'r casgliad bod modd rheoli'r effeithiau hyn neu y gellir eu lliniaru;

- a yw hi, ar lefel strategol ac yn amodol ar ystyriaethau lleol, yn rhesymol casglu y bydd gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle a enwebir yn gallu cael ei gweithredu o fewn gofynion amgylcheddol a rheoleiddiol normal; ac

- unrhyw faterion a all effeithio ar yr oeri dros gyfnod oes yr orsaf niwclear newydd (gan gynnwys newidiadau mewn meteoroleg, hinsawdd, ayb).

Dogfennau a ddarperir i gefnogi D10	**Eich cyfeirnod**

E Datganiad

Rwy'n dymuno enwebu'r safle a bennir yn A1 ac A2 ar gyfer cael ei ystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel safle sy'n addas neu sydd â'r potensial i fod yn addas ar gyfer lleoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd erbyn diwedd 2025.

Tystiaf fod y wybodaeth yn yr enwebiad hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Enw'r unigolyn neu, os gwneir yr enwebiad ar ran cwmni neu endid corfforaethol, enw Cyfarwyddwr y Cwmni, Ysgrifennydd y Cwmni, Partner neu unigolyn sydd ag awdurdod priodol i lofnodi:

…….

Llofnod yr unigolyn neu, os gwneir yr enwebiad ar ran cwmni neu endid corfforaethol, enw Cyfarwyddwr y Cwmni, Ysgrifennydd y Cwmni, Partner neu unigolyn sydd ag awdurdod priodol i lofnodi:

……..

Os gwneir yr enwebiad ar ran cwmni neu endid corfforaethol, a wnewch chi ddarparu tystiolaeth bod yr unigolyn sy'n llofnodi'r datganiad hwn yn Gyfarwyddwr y Cwmni, Ysgrifennydd y Cwmni, Partner neu'n unigolyn sydd ag awdurdod priodol i lofnodi.

Lle bo'r enwebiad gan fwy nag un parti, er enghraifft consortiwm, rhaid i'r holl bartïon sy'n enwebu lofnodi'r datganiad a darparu tystiolaeth bod ganddynt awdurdod i lofnodi (os yw'n briodol).

Dogfennau a ddarperir i gefnogi'r Datganiad	**Eich cyfeirnod**

F Rhestr o'r holl ddogfennau ategol a ddarperir gyda'r enwebiad hwn

A wnewch chi restru yma, ynghyd â'ch cyfeirnodau, yr holl ddogfennau ategol rydych yn eu cynnwys gyda'r enwebiad hwn. Dylai'r rhestr gynnwys yr holl ddogfennau y cyfeirir atynt wrth ymateb i'r rhannau unigol a'r cwestiynau uchod.

Dogfennau a ddarperir i gefnogi'r enwebiad hwn	**Eich cyfeirnod**
Map Arolwg Ordnans anodedig â graddfa 1:10,000 i ddangos terfyn yr ardal a enwebir	001
Llythyr gan CNPO /Datganiad bod y safle yn un credadwy ar gyfer lleoli erbyn 2025 (*dileer fel sy'n briodol*)	